**PWYLLGOR SAFONAU**
**2 MEDI 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 2 Medi 2019

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau Cyfetholedig:
Julia Hughes a Phillipa Earlam

**YMDDIHEURIADAU:** Jonathan Duggan-Keen a Ken Molyneux

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**17. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**18. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 1 Gorffennaf 2019.

Materion yn Codi

Cofnod 11: Cytunwyd y dylid diwygio'r cofnodion i adlewyrchu bod y Cadeirydd wedi gofyn i aelod o'r cyhoedd adael yr ystafell cyn penderfynu ar gais am ollyngiad.

Cofnod 13, y trydydd paragraff: Gofynnodd Mrs Julia Hughes am newid y cofnodion i ddarllen: "Gan nad oedd Clerc Cyngor Tref y Fflint wedi derbyn adborth gan y Pwyllgor Safonau a ddosbarthwyd trwy e-bost".

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 19. GODDEFEBAU

Esboniodd y Swyddog Monitro fod cais am ollyngiad wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson. Cyfeiriodd at ollyngiad a roddwyd i'r Cynghorydd Hutchinson ym mis Mawrth 2019. Dywedodd gan fod y cais newydd i raddau helaeth yr un fath â'r cais blaenorol, yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor ym mis Mawrth, ei fod wedi ymestyn y gollyngiad presennol i gwmpasu'r cais hwn. Ni fyddai'r telerau a'r dyddiad dod i ben o'r gollyngiad gwreiddiol yn newid ond byddent bellach yn ymdrin â cheisiadau cynllunio 060160 a 058489.

## 20. ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYNGHORAU TREF/CYMUNED

Cafwyd adroddiadau ar lafar gan yr aelodau canlynol:

Robert Dewey - Cyngor Tref yr Wyddgrug
Julia Hughes - Cyngor Tref Shotton
Mrs Phillipa Earlam - Cyngor Cymuned Queensferry

Siaradodd y Cadeirydd am ei ymweliad cadarnhaol yn mynychu cyfarfod o Gyngor Tref yr Wyddgrug. Esboniodd fod busnes wedi symud ymlaen ar gyflymder da a'i fod yn cael ei arwain yn fedrus gan y Clerc a'r Cadeirydd gyda chyfle i drafod a gofyn cwestiynau ar faterion yn codi heb oedi'r drafodaeth. Roedd swyddogion o'r Cyngor wedi mynychu ac yn adrodd yn wybodus ar faterion busnes, adfywio ac ariannol. Cynhaliwyd y cyfarfod mewn lleoliad ffurfiol a oedd, yn ei farn ef, wedi cyfrannu at yr awyrgylch effeithlon. I grynhoi dywedodd fod y cyfarfod wedi bod yn esiampl o arfer da.

Esboniodd Mrs Julia Hughes, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, iddi orfod cefnu ar ei hymweliad â Chyngor Tref Shotton ar 8 Gorffennaf gan nad oedd wedi gallu dod o hyd i'r lleoliad ar gyfer y cyfarfod. Dywedodd hefyd ei bod wedi cael anhawster wrth geisio cysylltu â'r Clerc a chael gwybodaeth o'r wefan. Mynegodd bryder y gallai aelodau o'r cyhoedd, hefyd, gael anhawster i ddod o hyd i gyfarfodydd y Cyngor Tref a'u mynychu.

Rhoddodd Mrs Phillipa Earlam adborth ar ei hymweliad â Chyngor Cymuned Queensferry. Dywedodd fod y cyfarfod wedi'i gadeirio'n dda a'i fod yn brofiad cadarnhaol ar y cyfan. Wrth sôn am y wefan, dywedodd Mrs. Earlam mai dim ond crynodeb o'r agenda oedd wedi bod ar gael cyn y cyfarfod, fodd bynnag, darparwyd copi o'r agenda iddi yn y cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod roedd cyflwyniad wedi'i roi ar y Cynllun Cyllid Gorfodi ac roedd swyddog o Srydlun hefyd yn bresennol ac yn adrodd ar gynnydd ar eitemau oedd heb eu datrys a materion newydd sy'n effeithio ar amrywiol ardaloedd. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y Swyddog Monitro i'r ymholiadau a godwyd gan Mrs. Earlam.

Codwyd y pwyntiau canlynol a oedd i'w bwydo yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned:

- eitem ar yr agenda ar Ddatgan Cysylltiad i'w chynnwys ar gyfer pob cyfarfod
- hygyrchedd y lleoliad a defnydd da o arwyddion

- dylid darparu gwybodaeth am leoliad cyfarfodydd a chyfarwyddiadau ar wefannau'r Cyngor Tref / Cymuned

Gwnaeth y Swyddog Monitro sylwadau ar yr angen i gyflwyno adroddiad cyffredinol ar ymweliadau aelodau â Chynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Safonau a Chynghorau Tref a Chymuned i'w gynnal ar 30 Medi 2019. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n cysylltu â Chyngor Tref Shotton yn y cyfamser i ganfod dyddiad y cyfarfod nesaf.

Awgrymodd y Cynghorydd Paul Johnson, yn dilyn yr adborth a roddwyd ar ymweliadau gan aelodau, y dylid cysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned i ofyn a oedd yn ddefnyddiol ac a oedd unrhyw awgrymiadau wedi'u gweithredu.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid darparu canllawiau sylfaenol i gynorthwyo Cynghorwyr newydd ar faterion gweithdrefnol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor Tref a Chymuned. Cefnogwyd hyn gan y Cynghorydd Patrick Heesom.

Awgrymodd Mrs Julia Hughes y gallai copi o ganllawiau'r Awdurdod ei hun ar y safonau ymddygiad y dymunir fod o gymorth i Gynghorau Tref a Chymuned. Awgrymodd hefyd y dylid darparu arweiniad i Gynghorau Tref a Chymuned ar y gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â gwefannau.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiadau ar lafar a darparu adborth i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

## 21. ADOLYGU SAFONAU SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i adolygu'r safonau ymddygiad disgwyliedig sydd o fewn Gweithdrefn Safon / Datrysiad Lleol Sir y Fflint. Darparodd wybodaeth gefndirol a chynghorodd fod Aelodau a Swyddogion wedi dymuno adolygu cynnwys Safon Sir y Fflint i ehangu ac egluro'r canllawiau ynddo ac ailddatgan ac atgyfnerthu'r ymddygiadau a ddisgwylir. Roedd y diwygiadau a awgrymwyd gan Swyddogion ac Arweinwyr Grŵp i'r Safon wedi'u manylu yn yr atodiad i'r adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd aelodau'r Pwyllgor y diwygiadau pellach a ganlyn:

Tudalen 15: yn Saesneg, y gair 'Chairman' i'w ddisodli gan 'Chair' drwyddi draw.

Tudalen 15, pwynt bwled olaf: y geiriad i'w ddiwygio i ddarllen 'Aelodau ar y cyd ac yn unigol i sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin â pharch mewn cyfarfodydd cyhoeddus o fewn y ward(iau)'.

Tudalen 17, paragraff 2: Gwnaeth y Cynghorydd Arnold Woolley sylwadau ar yr angen i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwael yn gyflym a mynegodd bryderon ynghylch yr amserlen 12 mis y cyfeiriwyd ati. Ymatebodd y Swyddog Monitro i'r sylwadau a godwyd a rhoddodd eglurhad ar weithdrefnau. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid newid y geiriad i ddarllen 'Dim ond yn y 90 diwrnod

cyn i gŵyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro y bydd y weithdrefn hon yn berthnasol'.

Tudalen 18, paragraff 7: awgrymwyd y dylid ystyried y geiriad 'neu ddirprwy enwebedig' os nad oedd y Prif Weithredwr ar gael i ddod i gyfarfod.

Tudalen 18, paragraff 8: newid y geiriad i ddarllen 'Pwrpas y cyfarfod hwn fydd ceisio datrys y mater trwy gymodi. Os bernir bod angen hynny gall y Prif Weithredwr alw ar y Swyddog Monitro a / neu'r Dirprwy Swyddog Monitro am gyngor a chymorth'..

Tudalen 18, paragraff 9: diwygio'r gair 'Safon' i ddarllen 'Safonau'.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai angen i'r ddogfen ddiwygiedig gael ei hystyried gan y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd cyn ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Yn ddarostyngedig i'r diwygiadau pellach y manylir arnynt uchod yn Safon Sir y Fflint, dylid argymell i'r Cyngor eu mabwysiadu.

## 22. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU AR GYFER GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi adborth gan Fforwm y Pwyllgor Safonau ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru. Darparodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y materion allweddol, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad, y dylai'r Pwyllgor eu hystyried. Roedd cofnodion drafft cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2019, ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at yr argymhellion arfer gorau a allai fod yn berthnasol o adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a dywedodd er na allai'r Cyngor newid deddfwriaeth y gallai fabwysiadu'r argymhellion yn wirfoddol lle nad oeddent eisoes mewn grym. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cyngor roi'r argymhellion arfer gorau canlynol ar waith:

R6 Cod i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru rhoddion / lletygarwch dros £50 neu dros £100 y flwyddyn oddi wrth un ffynhonnell

R19 I glercod plwyf fod yn gymwysedig - awgrymwyd y gallai hyn gael ei godi yn y cyfarfod ar y cyd â Chynghorau Tref a Chymuned i'w gynnal ar 30 Medi.

R24 Cynghorwyr i fod yn "bersonau rhagnodedig" yn Neddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998

BP4 Cod ar gael yn rhwydd mewn safle amlwg ar wefan awdurdod lleol - awgrymwyd y gallai fod mwy o dryloywder ynglŷn â hyn

BP5 Awdurdodau lleol i ddiweddaru cofrestrau rhoddion a lletygarwch bob chwarter a'u gwneud ar gael

BP11 Cwynion Safonau am ymddygiad aelod neu glerc i'w gwneud gan y Cadeirydd neu'r Cyngor Plwyf (Cymuned) yn gyffredinol - awgrymwyd y gallai hyn gael ei godi yn y cyfarfod ar y cyd â Chynghorau Tref a Chymuned i'w gynnal ar 30 Medi.

BP15 Uwch swyddogion i gwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr grŵp neu chwipiau ynglŷn â safonau - awgrymwyd y gallai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau gwrdd ag Arweinydd y Cyngor a'r Swyddog Monitro i drafod safonau o fewn y Cyngor ddwywaith y flwyddyn.

Cytunodd y Swyddog Monitro i ddarparu adroddiad ar y cynnydd ar argymhelliad BP15 yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhelir ar 4 Tachwedd 2019.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod 8 Pwyllgor Safonau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru (gan gynnwys yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Parc Cenedlaethol). Roedd pob un yn ymdrin â meysydd cyfrifoldeb tebyg ac yn cwrdd yn aml ar sail llwyth gwaith. Ers 2016 roedd yn ddeddfwriaethol bosibl cael Cyd-bwyllgorau Safonau i wasanaethu dau awdurdod neu fwy. Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd cyflwyniad ar y risgiau a'r materion ar gyfer creu un neu fwy o Bwyllgorau Safonau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Gofynnodd Julia Hughes i gofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2019, gael eu diwygio i gynnwys ei phresenoldeb o dan y rhai a oedd yn bresennol fel a ganlyn: Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Julia Hughes (Is-gadeirydd).

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y dylai swyddogion gysylltu â'r siroedd hynny a nodwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhai sy'n cynrychioli arfer da i weld pa welliant y gellid ei wneud i hyfforddiant moesegol y Cyngor;

(b) Y dylai'r Cyngor roi'r argymhellion arfer gorau hynny ar waith o adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus fel y cytunwyd gan y Pwyllgor; a

(c) Gofyn i'r Swyddogion Monitro ym mhob un o'r 6 Chyngor ynghyd â'r Awdurdod Tân a'r Parc Cenedlaethol, baratoi gyda'i gilydd ddadansoddiad manylach o sut y gellir cyflwyno un neu fwy o Bwyllgorau Safonau ar y Cyd yng Ngogledd Cymru.

## 23. LLAWLYFR OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) RHIFYN 20 (IONAWR 2019 - MAWRTH 2019)

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor o'r cyhoeddiad diweddaraf o Lyfr Achos Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod PSOW wedi ymchwilio i ddwy gŵyn, a chanlyniad y ddwy oedd nad oedd angen gweithredu. Ni chafwyd unrhyw ganfyddiadau o ddim torri, dim atgyfeiriadau at Swyddogion Monitro i'w hystyried gan eu Pwyllgorau Safonau ac ni chyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru i'w dyfarnu gan dribiwnlys.

Adroddodd y Dirprwy Swyddog Monitro ar y prif ystyriaethau, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad, a chyfeiriodd at ganfyddiadau Cyngor Tref Doc Penfro - Hyrwyddo achos cydraddoldeb a pharch, a Chyngor Tref Saltney - Hyrwyddo achos cydraddoldeb a pharch.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid nodi canfyddiadau'r cwynion hynny yr ymchwiliwyd iddynt gan y PSOW rhwng Ionawr a Mawrth 2019, fel y'u crynhoir yn rhifyn 20 o'r Llyfr Achos.

## 24. DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynnydd Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Darparodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y prif ystyriaethau fel y manylir arnynt yn yr adroddiad. Dywedodd yn foesegol bod anawsterau posibl wrth drafod trosglwyddiad ac wedi hynny lle mae Cynghorwyr yn ymwneud â rheoli'r ased sydd newydd ei drosglwyddo, fodd bynnag, mae mecanweithiau yn y Cod a ffyrdd o weithio a all leddfu'r anawsterau posibl.

Mynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom bryderon ynghylch y cynnydd a gyflawnwyd ar rai ceisiadau i drosglwyddo asedau a mynegodd y farn bod cymunedau lleol dan anfantais o ganlyniad. Cydnabu'r Swyddog Monitro y pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Heesom a dywedodd y byddai'n rhoi adborth i'r Prif Swyddog Tai ac Asedau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn sicr bod y mecanweithiau o fewn y broses cod ymddygiad / goddefeb yn foddhaol ar gyfer rheoli unrhyw faterion moesegol posibl sy'n codi o'r Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol..

## 25. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Ystyriwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol. Atgoffodd y Swyddog Monitro aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn gyfarfod ar y cyd â Chynghorau Tref a Chymuned. Byddai cyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 4 Tachwedd, yn cynnwys eitem ar yr awgrym a wnaed yn ystod y cyfarfod y dylai Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau gwrdd ag Arweinydd y Cyngor a'r Swyddog Monitro i drafod safonau o fewn y Cyngor. Cytunwyd y byddai sesiwn

hyfforddi yn cael ei chynnal cyn y cyfarfod ar 4 Tachwedd. Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r aelodau gyflwyno unrhyw eitemau yr oeddent eisiau hyfforddiant arnynt. Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am ddarparu hyfforddiant ar y Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 26. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 am a daeth i ben am 8.00 pm)

....................................................

**Cadeirydd**